PADLEY, WALTER ERNEST (1916-1984), gwleidydd Llafur

Enw: Walter Ernest Padley
Dyddiad geni: 1916
Dyddiad marw: 1984
Priod: Sylvia Elsie Padley (née Wilson)
Rhiant: Mildred Padley
Rhiant: Ernest Padley
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidydd Llafur
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: John Graham Jones

Ganwyd ef yn Chipping Norton ar 24 Gorffennaf 1916, yn fab i Ernest Padley, clerc mewn siop groser, a Mildred ei wraig. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Chipping Norton a Choleg Ruskin, Rhydychen lle ddaliodd ysgoloriaeth gan Gyngres yr Undebau Llafur. Dechreuodd ar ei yrfa fel clerc gyda'r Gymdeithas Gyfanwerthol Gydweithredol (y CWS), ac ym 1933 ymunodd ag Undeb y Gweithwyr Dosbarthu Masnachol. Roedd wedi ymuno â'r Blaid Lafur Annibynnol ym 1932 a safodd fel ymgeisydd ar ran y Blaid honno mewn is-etholiad yn etholaeth Acton, swydd Middlesex yn Rhagfyr 1943. Gwasanaethodd hefyd fel aelod o bwyllgor gwaith y Blaid Lafur Annibynnol, 1941-46, ac ymunodd â'r Blaid Lafur yn yr un flwyddyn. Daeth yn ysgrifennydd Cydbwyllgor Addysg Cymdeithasau Cydweithredol Llundain, a bu hefyd yn llywydd Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a'u Cynghreiriaid, 1948-64. Credir mai Padley oedd y ieuengaf erioed i'w ethol i'r swydd hon, ac yntau heb fod ond yn 31 oed. Bu ar yn adeg yn gydweithiwr agos i James Maxton o fewn arweinyddiaeth y Blaid Lafur Annibynnol.

Walter Padley oedd AS Llafur etholaeth Ogwr, 1950-79 pan ymddeolodd o'r senedd. Ystyrid Ogwr yn un o gadarnleoedd selocaf y Blaid Lafur ledled y wlad, a chynyddodd Padley ei fwyafrif i fwy na 26,000 o bleidleisiau. Etholwyd ef yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol y Blaid Lafur ym 1956, a gwasanaethodd fel ei gadeirydd ym 1966-67. Bu hefyd yn gadeirydd ei is-bwyllgor tramor, 1963-71. Parhaodd yn aelod o'r pwyllgor gwaith tan 1978. Gwasanaethodd yn weinidog gwladol yn y Swyddfa Dramor, Hydref 1964-Ionawr 1967, a bu'n gadeirydd ar y Blaid Lafur, 1965-66. Daeth yn adnabyddus yn San Steffan oherwydd ei syniadau di-flewyn-ar-dafod a gwnaeth nifer o gyfraniadau defnyddiol i ddadleuon yn y T Cyffredin ar fasnach a diwydiant. Cyn ei ethol i'r senedd, ysgrifennodd nifer o gyfrolau. Cyhoeddodd lyfrau gan gynnwys *The Economic Problem of the Peace* (1944), *Am I my Brother's Keeper?* (1945), *Britain: Pawn or Power?* (1947) a *USSR: Empire or Free Union?* (1949). Priodod ar 7 Tachwedd 1942 Sylvia Elsie Wilson, a bu iddynt un mab a merch. Eu cartref oedd 73 Priory Gardens, Highgate, Llundain. Bu farw ar 15 Ebrill 1984. Ei olynydd fel AS Llafur dros etholaeth Ogwr oedd Syr Ray Powell a wasanaethodd gynt yn asiant gwleidyddol Padley am ddeuddeg mlynedd. Roedd yn hysbys yn gyffredinol mai Powell oedd dewis Padley fel ei olynydd yn yr etholaeth.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997 (Talybont 1999)

Welsh Hustings - 1885-2004 (Rhydaman 2005)

Dod's Parliamentary Companion

The Times guide to the House of Commons October 1974

The Times, 17 Ebrill 1984

Western Mail, 17 Ebrill 1984

Darllen Pellach

Archifau LlGC: General Election, 1950. Ogmore Parliamentary Division. Walter Padley The Labour Candidate

Archifau LlGC: Parliamentary Election 1974 Ogmore Constituency. Walter Padley The Labour Candidate

Archifau LlGC: Parliamentary Election 1974 Ogmore Constituency Walter Padley The Labour Candidate

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 66848978

Wikidata: Q7965776

Dyddiad cyhoeddi: 2008-08-01

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu